Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Adolygiad o weithrediadau, prosesau ac ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Tachwedd 2024

senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCyllid**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyllid**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Adolygiad o weithrediadau, prosesau ac ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Tachwedd 2024

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCyllid**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru



**Peter Fox AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ... 5**

**2. Y cefndir ... 6**

Y gŵyn gychwynnol ... 6

Yr Adolygiad Annibynnol ... 8

Cynnig y Senedd ... 10

Cylch gorchwyl y Pwyllgor ... 10

Barn y Pwyllgor ... 11

**3. Methodoleg a dull yr Adolygiad Annibynnol ... 13**

Cylch Gorchwyl yr Adolygiad Annibynnol ... 13

Yr Adolygydd Arweiniol ... 14

Methodoleg yr Adolygiad ... 15

Adolygiadau dogfennol ... 16

Adolygiad achos ... 16

Cyfweliadau staff ... 18

Barn y Pwyllgor ... 19

**4. Canlyniadau, argymhellion a gwersi a ddysgwyd o'r Adolygiad Annibynnol ... 21**

Canlyniadau ... 21

Prosesau a dirprwyaethau ... 21

Adolygiad achosion Tîm y Cod ... 27

Adolygu'r achosion ymchwilio a derfynwyd lle'r oedd Cyn-reolwr Tîm y Cod yn "berchennog achos" ... 27

Cyfweliadau staff ... 28

Argymhellion a oedd yn codi o'r Adolygiad Annibynnol ... 31

Gwersi a ddysgwyd ac ymateb yr Ombwdsmon i'r Adolygiad Annibynnol ....32

Barn y Pwyllgor ....37

**Atodiad 1: Argymhellion o'r Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad ....40**

# 1. Cyflwyniad

**1.** Y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) yw'r pwyllgor cyfrifol sy'n goruchwylio Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) o dan Reol Sefydlog 18A.[1] Mae hyn yn cynnwys:

- adolygu gweithrediad ac effaith Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019[2];
- penderfynu ar y telerau sy'n gymwys i benodiad Ombwdsmon;
- arfer y swyddogaethau mewn perthynas ag anghymhwyso person sydd wedi peidio â dal swydd Ombwdsmon rhag dal swyddi penodol am gyfnod perthnasol;
- archwilio'r amcangyfrif o incwm a threuliau swyddfa'r Ombwdsmon (yr Amcangyfrif) ar gyfer pob blwyddyn ariannol;
- ystyried unrhyw gynigion cyllideb atodol sy'n ceisio diwygio symiau a awdurdodwyd o'r blaen drwy benderfyniad cyllideb neu benderfyniad cyllideb atodol mewn perthynas â'r Ombwdsmon;
- cynghori'r Senedd ar benodi a diswyddo Ombwdsmon neu Ombwdsmon dros dro.

**2.** Mae'r Pwyllgor fel arfer yn cynnal un sesiwn flynyddol[3] gyda'r Ombwdsmon yn ymwneud â'r amcangyfrif ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod. Yn ystod y Chweched Senedd, mae'r sesiwn hon wedi cynnwys craffu ar yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon perthnasol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cynnal gwaith craffu ad-hoc yn ôl yr angen, gan gynnwys craffu ar gyllidebau atodol yr Ombwdsmon.

[1] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, tudalen 77
[2] Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019
[3] Y Pwyllgor Cyllid, Amcangyfrif o incwm a gwariant Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

# 2. Y cefndir

## Y gŵyn gychwynnol

**3.** Ar 26 Mawrth 2024, cafodd yr Ombwdsmon gŵyn a thystiolaeth i'w chefnogi a oedd yn nodi honiadau bod arweinydd tîm yn Nhîm y Cod Ymddygiad wedi mynegi barn wleidyddol bersonol a oedd yn cynnwys iaith sarhaus ar y cyfryngau cymdeithasol.[4] Fel y nodwyd mewn nifer o adroddiadau yn y cyfryngau, gwaharddwyd yr arweinydd tîm i ddechrau ac ymddiswyddodd ar ôl hynny.[5]

**4.** Mewn llythyr at y Pwyllgor, cadarnhaodd yr Ombwdsmon y canlynol:

> *"Rheolodd yr arweinydd tîm[6] y tîm Cod Ymddygiad Cynghorwyr o fis Chwefror 2019 tan fis Awst 2023, pan gynhaliwyd cylchdro o arweinwyr tîm a symudodd o'r tîm. O fis Ebrill 2021 ymlaen, roedd y tîm hwn yn gyfrifol am asesu cwynion yn erbyn cynghorwyr a gwneud penderfyniadau ynghylch pa gwynion na ddylid ymchwilio iddynt. Cyn y dyddiad hwn, tîm gwahanol oedd yn gwneud yr asesiadau hyn na chafodd ei reoli gan yr arweinydd tîm dan sylw."[7]*

**5.** Cyfarfu swyddogion o swyddfa'r Ombwdsmon â Chyn-reolwr Tîm y Cod ar 29 Mawrth 2024 i drafod yr honiadau. Cadarnhaodd yr Ombwdsmon nad oedd Cyn-reolwr Tîm y Cod wedi gwadu'r un honiad:

> *"She didn't deny that those social media posts had been made by her, and she didn't deny that the social media addresses were hers. The important point being here that she hadn't attached her name to them; they were under a sort of pseudonym, so it wasn't obvious immediately that they were hers. But she didn't deny any of that. So, because of that, she was suspended immediately, pending an internal disciplinary investigation."[8]*

---

[4] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Mai 2024, paragraff 10
[5] Cymru Fyw, Ymchwilydd yn ymddiswyddo wedi negeseuon am Doriaid, 4 Ebrill 2024
[6] Cyfeirir at yr arweinydd tîm fel Cyn-reolwr Tîm y Cod drwy gydol yr adroddiad hwn fel sy'n gyson â'r Adolygiad Annibynnol.
[7] Llythyr oddi wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 15 Ebrill 2024
[8] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Mai 2024, paragraff 11

**6.** Cadarnhaodd yr Ombwdsmon fod y dull hwn yn cyd-fynd â'i broses ddisgyblu ar ôl achos o dorri safonau ymddygiad y staff.[9]

**7.** Cadarnhaodd yr Ombwdsmon na fyddai rheolwr llinell Cyn-reolwr Tîm y Cod wedi cymryd rhan mewn unrhyw weithdrefn ddisgyblu gan mai ei rôl oedd cefnogi'r Cyn-reolwr, ac felly roedd yn rhaid iddo fod yn annibynnol ar weithdrefnau disgyblu. Aeth yr Ombwdsmon ymlaen i ddweud bod gan Gyn-reolwr Tîm y Cod fynediad hefyd at wasanaethau fel cwnsela hefyd pe bai eu hangen.[10]

**8.** Aeth swyddog yr Ombwdsmon ymlaen i ddweud mai'r drefn, ar gais Cyn-reolwr Tîm y Cod, oedd cysylltu â hi drwy gynrychiolydd ei hundeb llafur ar ôl penwythnos y Pasg.[11]

**9.** Ymddiswyddodd Cyn-reolwr Tîm y Cod ar 3 Ebrill 2024.[12] Cadarnhaodd yr Ombwdsmon fod Cyn-reolwr Tîm y Cod wedi cael tâl yn lle'r cyfnod rhybudd cytundebol ond na chafodd daliad diswyddo uwchlaw'r taliadau cytundebol.[13]

**10.** Soniodd yr Ombwdsmon am sut yr effeithiodd y digwyddiad ar y swyddfa, gan ddweud y bu'n gyfnod anodd iawn i'r sefydliad ac i staff y sefydliad, ac aeth ymlaen i nodi'r canlynol:

> *"The impact of the actions of one individual has really sent ripples—shockwaves, really—through the organisation, so that's what we've been dealing with. But I think it's important that I put on the record from the outset that the conduct of that member of staff fell well short of the standards of conduct expected from our staff, and that's why we took swift action, which I'll go on to talk about. Neither I nor my staff condone any of the comments that she made and they were totally unacceptable."*[14]

**11.** Pan ofynnwyd i'r Ombwdsmon a oedd y swyddfa wedi darparu unrhyw gymorth i Gyn-reolwr Tîm y Cod yn ystod y cyfnod hwn, atebodd y Pwyllgor fel a ganlyn:

---

[9] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Mai 2024, paragraff 12
[10] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Mai 2024, paragraff 32
[11] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 49
[12] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Mai 2024, paragraff 14
[13] Llythyr oddi wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 15 Ebrill 2024
[14] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Mai 2024, paragraff 9

> *"… all of that information that had been provided to me in that letter had been provided to the press as well, so we knew it was going to get press coverage over the Easter weekend, and her name was put into the public domain very quickly, not by us—we've never published her name—but it came from whoever passed that information to the press. So, we were mindful we had to support her through that, and we did so through that weekend, with her line manager providing support."*[15]

**12.** Yn dilyn y digwyddiad, esboniodd yr Ombwdsmon fod staff wedi cael eu cefnogi drwy gynnal sesiynau briffio wyneb yn wyneb neu ar-lein, a hynny'n uniongyrchol yn eu timau:

> *"Any announcements we're making publicly, the staff hear about first. They've seen the terms of reference et cetera. So, I think at the moment, it's about keeping them informed about what's happening, offering them support, encouraging them, if they've got real personal concerns, to come forward and either talk to their manager or to another employee. We've got mental health first-aiders in the office—named people who are there to provide that sort of support and they can be used in this situation if people feel it's really affecting them from a stress and mental health perspective."*[16]

## Yr Adolygiad Annibynnol

**13.** Yn dilyn honiadau o ragfarn wleidyddol, cyhoeddodd yr Ombwdsmon ar 9 Ebrill 2024 y bydd "adolygiad annibynnol yn cael ei gynnal i roi sicrwydd bod ei brosesau cod ymddygiad yn gadarn ac yn rhydd o ragfarn wleidyddol".[17]

**14.** Cyhoeddwyd adroddiad yr Adolygiad Annibynnol ar 27 Medi 2024.[18] Croesawodd yr Ombwdsmon yr adroddiad "a'r cadarnhad fod y broses penderfynu, o ran cwynion Cod Ymddygiad, yn rhydd rhag rhagfarn wleidyddol". Ychwanegodd fel a ganlyn:

> *"Mae'r adolygiad hwn yn cydnabod y gwaith rhagorol a wneir gan y Tîm Cod Ymddygiad ac rydym yn falch bod yr Adolygydd Annibynnol wedi datgan y dylai roi sicrwydd, i'r cyhoedd ac*

[15] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Mai 2024, paragraff 13
[16] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Mai 2024, paragraff 35
[17] Datganiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 9 Ebrill 2024
[18] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, Medi 2024

*aelodau etholedig, fel y gallant fod â ffydd a hyder yng ngwaith OGCC."*[19]

**15.** Mae'r adroddiad yn nodi mai duben yr Adolygiad Annibynnol oedd:

> *"… edrych ar brosesau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer asesu ac ymchwilio i gwynion bod aelodau awdurdodau lleol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol a phaneli heddlu a throseddu yng Nghymru wedi torri eu Cod Ymddygiad."*[20]

**16.** Wrth drafod â'r Pwyllgor[21], cadarnhaodd yr Ombwdsmon nad diben yr Adolygiad oedd penderfynu a oedd unigolion yn fodlon ar ganlyniadau eu cwynion neu eu hymchwiliadau, a'u cysylltiad â swyddfa'r Ombwdsmon. Eglurodd mai diben yr Adolygiad oedd penderfynu a oedd unrhyw dystiolaeth o ragfarn wleidyddol o ran y penderfyniadau a wneir gan yr Ombwdsmon.[22]

**17.** Mae'r adroddiad yn nodi mai nod yr Adolygiad oedd:

> *"… rhoi sicrwydd ynghylch a yw Tîm Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon wedi prosesu, dirprwyo a gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag asesu ac ymchwilio i gwynion gan Dîm y Cod a chyn-reolwr Tîm y Cod yn gadarn ac yn rhydd o ragfarn wleidyddol, ac i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o'r hyn a ddigwyddodd."*[23]

**18.** Nodir yn yr Adolygiad Annibynnol nad oedd ei gylch gwaith yn cynnwys ymchwilio i'r digwyddiad na Chyn-reolwr Tîm y Cod.[24] Dywedodd swyddog yr Ombwdsmon wrth y Pwyllgor fod yr Adolygiad yn ymwneud â gwaith achos a sut y gall pobl ddibynnu ar waith y swyddfa.[25]

[19] Datganiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 27 Medi 2024
[20] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 7
[21] Y Pwyllgor Cyllid, 1 Mai 2024, eitem 7 o'r agenda
[22] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 64
[23] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 7
[24] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 6
[25] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 53

## Cynnig y Senedd

**19.** Ddydd Mercher 17 Ebrill 2024,[26] gwnaeth y Senedd drafod a chytuno ar gynnig a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr Cymreig a oedd yn ymwneud â'r Ombwdsmon. Roedd y cynnig hwnnw'n cynnwys cyfarwyddyd i'r Pwyllgor Cyllid o dan Reol Sefydlog 17.2,[27] yn cynnig bod y Senedd:

> *"5. Yn unol â Rheol Sefydlog 17.2, yn cyfarwyddo'r Pwyllgor Cyllid i adolygu ar frys weithrediadau, prosesau ac ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i sicrhau:*
>
> *a) bod didueddrwydd a thegwch yn bresennol drwy gydol cyflogaeth y cyn Bennaeth Ymchwiliadau; a*
>
> *b) y gall y Senedd fod yn hyderus bod y swyddfa yn gallu cynnal ymchwiliadau yn y dyfodol mewn ffordd ddiduedd a theg."*[28]

## Cylch gorchwyl y Pwyllgor

**20.** Nododd y Pwyllgor y cynnig ar 24 Ebrill 2024[29] ac wedi hynny cytunodd ar y cylch gorchwyl ar gyfer ei ymchwiliad ei hun yn ei gyfarfod ar 1 Mai 2024.[30] Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n ystyried:

- y digwyddiadau a arweiniodd at ymddiswyddiad un o arweinwyr tîm swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r prosesau a ddilynwyd;
- y gweithrediadau a'r prosesau sy'n gysylltiedig ag ymchwiliadau Cod Ymddygiad, gan gynnwys trefniadau monitro a sicrhau ansawdd;
- a yw'r mecanweithiau sydd ar waith yn swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn sicrhau'n ddigonol fod ei staff yn gweithredu (ac wedi gweithredu) mewn ffordd ddiduedd a theg;
- cwmpas, rhychwant a chanfyddiadau'r adolygiad allanol annibynnol a gomisiynwyd gan yr Ombwdsmon.

**21.** Fel rhan o'i ystyriaeth gychwynnol, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Ombwdsmon ar 9 Mai 2024 i drafod y digwyddiad, y gweithdrefnau disgyblu a

[26] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 17 Ebrill 2024, paragraffau 395-449
[27] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, Medi 2024, Rheol Sefydlog 17.2, tudalen 62
[28] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 17 Ebrill 2024, paragraff 394
[29] Y Pwyllgor Cyllid, Agenda, 24 Ebrill 2024
[30] Y Pwyllgor Cyllid, Agenda, 1 Mai 2024

ddilynwyd o ran Cyn-reolwr Tîm y Cod a'r Adolygiad Annibynnol arfaethedig o brosesau'r Ombwdsmon. O ran y rhesymeg dros gomisiynu adolygiad allanol annibynnol, dywedodd yr Ombwdsmon y canlynol:

> *"I think I felt it really needed to be someone independent of the organisation that understood this world, understood this work, coming in to look at how we do things, to look at our processes and our procedures and our scheme of delegations around how the work is done, and, as I said, to look for a specific period of time at the cases where there was delegation to individual officers who were under the management of that team leader for the defined period of time. It just felt like we needed to do that in order to be able to rebuild that trust and confidence in the work that we do."*[31]

**22.** Cafodd y Pwyllgor hefyd lythyr oddi wrth yr Ombwdsmon ar 2 Gorffennaf 2024 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ac yn cadarnhau bod yr Adolygiad Annibynnol wedi dechrau ddiwedd mis Mai.[32]

## Barn y Pwyllgor

**23.** Ym marn y Pwyllgor, roedd hwn yn ddigwyddiad syfrdanol a hynod anffodus.

**24.** Mae annibyniaeth, didueddrwydd, tegwch a didwylledd yn egwyddorion sylfaenol sy'n sail i rôl yr Ombwdsmon. Mae'n hanfodol cyflawni'r egwyddorion hyn er mwyn sicrhau hygrededd gwaith y swyddfa a hyder y cyhoedd. Credwn fod y digwyddiad hwn wedi cael effaith negyddol ar enw da'r Ombwdsmon a bod ganddo'r potensial i danseilio hyder y cyhoedd yn ei waith yn y dyfodol.

**25.** O'r herwydd, roedd yn angenrheidiol ac yn gywir i'r Ombwdsmon drefnu adolygiad o'r trefniadau perthnasol, gyda'r nod o roi sicrwydd i'r rhanddeiliaid a'r aelodau o'r cyhoedd sy'n ymgysylltu â'r Ombwdsmon.

**26.** Rydym yn croesawu'r camau cyflym a gymerwyd gan yr Ombwdsmon i fynd i'r afael yn rhagweithiol â'r mater hwn a chredwn fod y dull hwn wedi llwyddo i osgoi rhagor o niwed i enw da'r sefydliad.

**27.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r camau a gymerwyd gan yr Ombwdsmon i gomisiynu Adolygiad Annibynnol yn dilyn y digwyddiad. Rydym yn cytuno bod comisiynu Adolygiad Annibynnol, yn hytrach na chynnal adolygiad mewnol, yn

[31] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Mai 2024, paragraff 50
[32] Llythyr oddi wrth yr Ombwdsmon at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 2 Gorffennaf 2024

rhoi’r sicrwydd i’r cyhoedd bod gan yr Ombwdsmon brosesau priodol ar waith i amddiffyn rhag rhagfarn wleidyddol.

**28.** Rydym hefyd yn cefnogi penodiad Dr Melissa McCullough a’i thîm i arwain yr Adolygiad ac yn croesawu’r adroddiad manwl. Sicrhaodd eu profiad a'u harbenigedd yn y maes hwn, a'r ffaith eu bod yn gyfarwydd â'r feddalwedd a ddefnyddir gan swyddfa’r Ombwdsmon, fod modd cynnal yr adolygiad yn gyflym a chyflawni gofynion yr Ombwdsmon.

**29.** Cred y Pwyllgor fod yr Adroddiad, ynghyd â’r sesiynau tystiolaeth a gynhaliwyd, yn rhoi sicrwydd bod diduedd rwydd a thegwch yn sail i’r penderfyniadau a wnaed drwy gydol cyflogaeth Cyn-reolwr Tîm y Cod a chan dîm ehangach y Cod Ymddygiad. Yn sgil ymrwymiad yr Ombwdsmon i weithredu’r holl argymhellion a’r gwersi a ddysgwyd, credwn y gall y Senedd fod yn hyderus y gall y swyddfa gynnal ymchwiliadau yn y dyfodol yn ddiduedd ac yn deg. Rydym hefyd yn fodlon bod cwmpas a thrylwyredd yr Adolygiad Annibynnol yn golygu y gallwn hefyd gytuno â'i gasgliadau.

**30.** Mae’r Pwyllgor yn nodi y bu hwn yn gyfnod arbennig o anodd i’r Ombwdsmon a’i staff, yn enwedig y rhai sy’n gweithio yn Nhîm y Cod Ymddygiad. Rydym yn croesawu'r cymorth a roddwyd i staff y tîm hwnnw ac eraill yn swyddfa’r Ombwdsmon, yn ogystal â'r cymorth a gynigiwyd i Gyn-reolwr Tîm y Cod.

**Casgliad 1.** Mae gan y Pwyllgor hyder bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gallu ymgymryd â'i waith gyda didueddrwydd a thegwch.

**Casgliad 2.** Cred y Pwyllgor fod y sylwadau a wnaed gan Gyn-reolwr Tîm y Cod yn destun gofid mawr a bod y camau prydlon a gymerwyd gan yr Ombwdsmon i gomisiynu Adolygiad Annibynnol o’r prosesau ar gyfer asesu cwynion ac ymchwilio iddynt yn ymateb priodol i’r digwyddiad a lwyddodd i liniaru rhagor o niwed i uniondeb y swyddfa.

**Casgliad 3.** Mae’r Pwyllgor yn croesawu tryloywder yr Ombwdsmon wrth gynnal yr Adolygiad a’r ffordd y gwnaeth ymgysylltu â’r Pwyllgor Cyllid cyn dechrau’r gwaith, yn ystod y broses ac ar ôl cwblhau’r Adolygiad.

**Casgliad 4.** Mae’r Pwyllgor yn nodi bod hwn wedi bod yn gyfnod arbennig o anodd i swyddfa’r Ombwdsmon, yn enwedig y staff yr effeithiwyd arnynt, ac mae’n croesawu’r dull a ddilynodd yr Ombwdsmon i sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi a bod llesiant yn cael ei flaenoriaethu yn ystod y cyfnod hwn.

# 3. Methodoleg a dull yr Adolygiad Annibynnol

## Cylch Gorchwyl yr Adolygiad Annibynnol

**31.** Rhannodd yr Ombwdsmon gylch gorchwyl drafft a rhestr fer o ymgeiswyr a allai arwain yr Adolygiad Annibynnol gyda'r Pwyllgor, a ystyriwyd ar 1 Mai 2024.[33] Cyhoeddodd yr Ombwdsmon gylch gorchwyl terfynol yr Adolygiad Annibynnol ar 20 Mai 2024, yn dilyn sesiwn dystiolaeth gychwynnol gyda'r Pwyllgor ar 9 Mai 2024. Roedd y cylch gorchwyl yn canolbwyntio ar bum canlyniad i'w cyflawni:

> *"1. Adolygu prosesau a dirprwyaethau Cod Ymddygiad OGCC i sicrhau eu bod yn briodol, yn deg ac yn ddiduedd ac yn rhydd o ragfarn wleidyddol.*
>
> *2. Adolygu'r penderfyniadau a wnaed gan y cyn arweinydd tîm a'i Thîm i beidio ag ymchwilio i gwynion Cod Ymddygiad rhwng 1 Ebrill 2021 a 22 Hydref 2023, i sicrhau bod prawf dau gam OGCC wedi cael ei gymhwyso'n gywir ac y bu penderfyniadau yn rhydd o ragfarn wleidyddol (673 o achosion).*
>
> *3. Adolygu achosion lle'r oedd y cyn arweinydd tîm yn 'berchennog achos' a gafodd eu hymchwilio a'u cau heb atgyfeiriad i bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru rhwng 1 Ebrill 2019 a 22 Hydref 2023, i sicrhau nad oes tystiolaeth o ragfarn wleidyddol wrth ymdrin â'r achosion hyn (11 achos).*
>
> *4. Sefydlu a oes tystiolaeth bod yr arweinydd tîm wedi mynegi ei barn bersonol ar faterion gwleidyddol yn debyg i'w postiadau cyfryngau cymdeithasol yn y swydd a/neu wedi dylanwadu'n amhriodol ar aelodau eraill o staff, wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.*
>
> *5. Gwneud unrhyw argymhellion y mae Dr McCullough yn eu hystyried yn briodol a chyhoeddi adroddiad terfynol y bydd OGCC yn ei rannu â Phwyllgor Cyllid y Senedd."*[34]

**32.** O ran sut y diffiniwyd rhagfarn wleidyddol at ddibenion yr Adolygiad Annibynnol, cydnabu'r Ombwdsmon fod hyn yn 'bwysig iawn'[35] a bod diffiniad

---

[33] Y Pwyllgor Cyllid, Agenda, 1 Mai 2022, Eitem 7
[34] Datganiad – Cylch Gorchwyl Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 20 Mai 2024
[35] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 32

wedi'i gynnwys yn yr adroddiad am y rheswm hwnnw. Nodir fel a ganlyn yn yr adroddiad:

> *"Canfyddir rhagfarn wleidyddol lle ceir tystiolaeth bod y penderfyniad ar achos wedi ei ddylanwadu gan ymlyniad gwleidyddol y sawl a wnaeth y gŵyn a/neu'r aelod y cwynwyd amdano."*[36]

**33.** Pan ofynnwyd i'r Ombwdsmon am y trothwyon o ran penderfynu a oedd rhagfarn wedi dylanwadu ar rywbeth, eglurodd nad yw'n wir bod lefel fach o ragfarn wleidyddol yn dderbyniol, a bod angen sicrhau nad oes rhagfarn wleidyddol o gwbl.[37]

## Yr Adolygydd Arweiniol

**34.** Ar 9 Ebrill 2024, cyhoeddodd yr Ombwdsmon ei bod wedi penodi James Goudie CB i arwain yr Adolygiad.[38] Ailystyriodd yr Ombwdsmon y penodiad hwn yn ddiweddarach yn sgil pryderon a godwyd ynghylch gweithgarwch gwleidyddol James Goudie CB yn y gorffennol.[39]

**35.** Ar 9 Mai 2024 cyhoeddwyd mai Dr Melissa McCullough, Comisiynydd Safonau Cynulliad Gogledd Iwerddon a hefyd Comisiynydd Safonau Cynulliadau Taleithiau Jersey a Guernsey, a fyddai'n arwain yr Adolygiad Annibynnol.[40] Dywedodd yr Ombwdsmon wrth y Pwyllgor pam mai Dr McCullough oedd y person priodol i arwain yr Adolygiad Annibynnol yn ei barn hi:

> *"The credibility of the person who does it. Dr McCullough, I believe, was well placed to do this work. I've heard no criticism of her appointment. I think people felt she had the right background to do this work. She's very experienced in it, and she brought her academic and professional experience of ethical standards working in this field in Northern Ireland and other jurisdictions."*[41]

---

[36] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, tudalen 30
[37] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 37
[38] Datganiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 9 Ebrill 2024
[39] Datganiad Cyhoeddus gan yr Ombwdsmon, 15 Ebrill 2024
[40] Datganiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 9 Mai 2024
[41] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 22

**36.** O ran annibyniaeth y tîm adolygu, cadarnhaodd yr Ombwdsmon nad oedd Dr McCullough na'i thîm wedi gweithio gyda'r Ombwdsmon yn flaenorol. [42]

**37.** Cadarnhaodd yr Ombwdsmon y gofynnwyd i Dr McCullough adolygu'r cylch gorchwyl drafft cyn iddo gael ei gytuno:

> *"She had the opportunity to look at them and discuss them with us, and the opportunity to ensure that she was satisfied that the terms of reference were right to try and achieve what it is we wanted to achieve from this. That was important. She was leading the review, she's put her name to it, and it was important that she had that input."*[43]

**38.** Dywedodd yr Ombwdsmon wrth y Pwyllgor ei bod wedi cael diweddariadau misol gan Dr McCullough i drafod cynnydd yr Adolygiad ac i godi materion. Aeth ymlaen i ddweud y gallai'r cyfarfodydd hyn fod wedi cael eu defnyddio i drafod ehangu cwmpas yr Adolygiad pe bai gan Dr McCullough bryderon ond nad oedd wedi gofyn i wneud hynny.[44]

## Methodoleg yr Adolygiad

**39.** Er mwyn llywio'r Adolygiad, cynhaliwyd cyfuniad o adolygiadau dogfennol, adolygiadau achos a chyfweliadau â staff.[45] Cadarnhaodd yr Ombwdsmon ei bod yn fodlon ar y dull hwn:

> *"… I think there was a robust methodology. I know that Dr McCullough said several times that she's a scientist by background, so the methodology was really important to her; the terms of reference and getting the methodology right were really important. I think that's why she spent some time in the report talking about that and confirming the methodology she followed."*[46]

[42] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 22
[43] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 15
[44] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 26
[45] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraffau 9-18
[46] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 18

## Adolygiadau dogfennol

**40.** Archwiliodd y tîm adolygu nifer o ddogfennau gan gynnwys:

- Proses Gwynion y Cod Ymddygiad (y llawlyfr proses);
- nodyn cyfarwyddyd mewnol Proses Gwynion y Cod Ymddygiad – Cynllun Dirprwyo;
- y Broses Adolygu Penderfyniadau;
- y daflen ffeithiau Cod Ymddygiad – Asesu Budd y Cyhoedd;
- y Weithdrefn Datrysiad Lleol;
- Polisi Safonau Ymddygiad Staff yr Ombwdsmon.[47]

**41.** Cadarnhaodd yr Ombwdsmon mai'r weithdrefn arferol fyddai i bob dogfen gael ei hadolygu neu ei diwygio o leiaf bob dwy flynedd a bod cael tîm annibynnol yn adolygu'r dogfennau hyn yn fanwl wedi bod yn hynod ddefnyddiol.[48] Aeth yn ei blaen i ddweud y canlynol:

> *"We actually reviewed that in April of this year, so, on that cycle, it would be due to be reviewed again in April 2026, but, in light of this report, we will now go back and make adjustments, as the recommendations recommend. So, we'll update that now; we won't wait until 2026 to do that, obviously. I don't think we'll change our review cycle, because it's on a two-year cycle anyway, but I think the value of this has been that that external team has come in and looked so closely at what we do, and we take on board fully their recommendations and the lessons that we learn from it."*[49]

## Adolygiad achos

**42.** Yn ôl yr Adolygiad, edrychwyd ar 673 o achosion. Dyma'r achosion lle penderfynodd Tîm y Cod Ymddygiad beidio â chynnal ymchwiliad, yn ystod y cyfnod pan oedd Cyn-reolwr Tîm y Cod yn arwain aelodau'r tîm. Cafodd 11 achos arall eu hadolygu hefyd, sef rhai y bu'r Cyn-reolwr yn ymchwilio iddynt pan oedd yn gyfrifol am oruchwylio gwaith y Cod Ymddygiad, y penderfynodd y

[47] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 10
[48] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 69
[49] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 70

Cyfarwyddwr Ymchwiliadau a Phrif Gynghorydd Cyfreithiol roi’r gorau iddynt wedi hynny.[50]

**43.** Cynhaliwyd yr adolygiad achos gan ddau o dri aelod o’r tîm adolygu. Gwnaethant raddnodi eu dull gweithredu drwy adolygu 30 o achosion ar y cyd ar ddechrau’r adolygiad er mwyn:

> *“… sicrhau cysondeb o ran gwaith adolygu’r dogfennau, gan gynnwys prif rannau’r broses, tystiolaeth, y prawf dau gam a pharamedrau adolygu cyffredinol ar gyfer pob achos.”*[51]

**44.** Nodir y canlynol yn yr Adolygiad:

> *“Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd drwy gydol yr adolygiad i ddiweddaru a thrafod yr achosion, nodi anghysonderau neu gwestiynau a oedd yn codi, ac i gofnodi themâu a oedd yn dod i’r amlwg.”*[52]

**45.** Mae'r adroddiad yn datgan bod trydydd aelod y tîm adolygu wedi cynnal proses samplo ar hap o 5 y cant ar ôl i bob achos gael ei adolygu. Roedd hyn yn cynnwys 24 o achosion Tîm y Cod, a 10 o achosion Cyn-reolwr Tîm y Cod a oedd yn cynnwys pum penderfyniad gan yr Ombwdsmon i adolygu achosion.[53] Esboniodd yr Ombwdsmon wrth y Pwyllgor beth oedd bwriad y broses samplo ar hap:

> *“… to see whether they agreed with the decisions they'd both reached. So, it was like a triangulation exercise, if you like, to make sure everyone in the team was applying the same approach.”*[54]

**46.** Ychwanegodd yr Ombwdsmon y canlynol:

> *“… the dip sampling was to do that: it was to satisfy her, I think, about the robustness of the approach they were using and that the whole team was using the same approach. And they applied that. We weren't involved in the dip sampling. They made the decision as to how they allocated the cases; they*

[50] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 11
[51] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 12
[52] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 12
[53] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 14
[54] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 39

> *made the decision about the dip sampling. It was all part of them … and Dr McCullough in particular … being certain that the methodology she was using was the right one. But it's important to say that they looked at all of the cases. They didn't do a dip sample, they looked at every single case."*[55]

## Cyfweliadau staff

**47.** Nodir yn yr Adolygiad, cyn yr adolygiad sylweddol, y cyfwelwyd â 10 aelod o Dîm y Cod yn ymwneud â'r 673 o achosion a oedd yn cael eu hadolygu, yn ogystal â'r Cyn-reolwr a'r Cyfarwyddwr Ymchwiliadau a Phrif Gynghorydd Cyfreithiol ar ôl cwblhau'r adolygiad achos.[56] Dywedodd yr Ombwdsmon wrth y Pwyllgor y cynhaliwyd yr holl gyfweliadau o bell drwy Teams.[57]

**48.** Eglurodd swyddog yr Ombwdsmon y cyfwelwyd hefyd ag unrhyw aelod o staff a oedd yn arfer gweithio yn Nhîm y Cod Ymddygiad yn ystod cyfnod yr Adolygiad ond a oedd wedi symud i dîm gwahanol yn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.[58]

**49.** Cynhaliwyd cyfweliadau i gadarnhau a fynegodd y Cyn-reolwr ei barn bersonol am faterion gwleidyddol a/neu a oedd wedi dylanwadu'n amhriodol ar aelodau eraill o staff ar Dîm y Cod Ymddygiad.[59]

**50.** Rhoddodd yr Ombwdsmon ragor o wybodaeth am sut y cynhaliwyd y cyfweliadau:

> *"… they also interviewed relevant staff who undertook this work, and importantly the staff whose work was being reviewed as part of this process. I think there was an important element of fairness there, that staff had the opportunity to participate in the review and put their views forward."*[60]

**51.** Cyfwelwyd hefyd â'r Cyn-reolwr fel rhan o'r Adolygiad. Pan ofynnwyd iddi pam y cyfwelwyd â'r Cyn-reolwr pan nad oedd cylch gwaith yr Adolygiad yn cynnwys ymchwilio i'r digwyddiad cychwynnol, na'r Cyn-reolwr yn unigol,

---

[55] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 41
[56] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 15
[57] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 21
[58] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 57
[59] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 16
[60] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 18

esboniodd yr Ombwdsmon fod Dr McCullough yn credu ei bod yn deg ei bod wedi cael cyfle i gymryd rhan. Aeth yr Ombwdsmon ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"We couldn't compel her to, we couldn't force her to, she wasn't working for us anymore, but we felt it was important she had that opportunity, and she—Chris can talk a bit more about this—was contacted on a couple of occasions. The first occasion she declined, but I think, on the second occasion, she took up the opportunity to talk to Dr McCullough and have her views put forward and on the record that way. So, it was Dr McCullough's call. I don't necessarily disagree with it, to be honest, in terms of fairness."*[61]

## Barn y Pwyllgor

**52.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r cylch gorchwyl a ddefnyddiwyd i lywio'r Adolygiad a chroesawodd y cyfle i ystyried y cylch gorchwyl drafft yn ogystal â rhestr o ymgeiswyr i arwain yr Adolygiad cyn iddynt gael eu cytuno'n ffurfiol. Rydym hefyd yn nodi bod y tîm adolygu wedi cael cyfle i wneud sylwadau ar y cylch gorchwyl cyn iddo gael ei gwblhau, yn ogystal â chyfle i ehangu ar y cylch gorchwyl wrth i'r Adolygiad fynd rhagddo. Rydym yn croesawu'r modd tryloyw yr ymgysylltodd yr Ombwdsmon â'r Pwyllgor ar y materion hyn ac rydym yn credu y darparodd y dull cynhwysol a fabwysiadwyd sylfaen gadarn i dîm yr Adolygiad Annibynnol allu gwneud ei waith.

**53.** Croesawyd y cyfle gan yr Ombwdsmon i ystyried pwy fyddai yn y sefyllfa orau i arwain yr Adolygiad Annibynnol. Rydym yn cyd-fynd â datganiad yr Ombwdsmon bod gan Dr McCullough y cefndir a'r arbenigedd perthnasol i gynnal yr Adolygiad ag uniondeb a chroesawyd ei phenodiad hi a'i thîm i arwain yr Adolygiad Annibynnol.

**54.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r fethodoleg a ddefnyddiwyd yn ystod yr Adolygiad Annibynnol ac yn nodi bod pob rhan o'r fethodoleg yn berthnasol i'r cylch gorchwyl. Yn ein barn ni, mae'r dull cyfunol hwn yn cadw uniondeb, cadernid ac annibyniaeth yr Adolygiad.

**55.** Rydym yn croesawu sicrwydd yr Ombwdsmon y rhoddwyd ystyriaeth ddyledus wrth ddiffinio rhagfarn wleidyddol fel rhan o'r Adolygiad. Mae'r Pwyllgor yn llwyr gydnabod pwysigrwydd sicrhau bod prosesau'r Ombwdsmon ynghylch

[61] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 46

cwynion cod ymddygiad “yn briodol, yn deg ac yn ddiduedd ac yn rhydd o ragfarn wleidyddol” ac mae'n credu bod yr adroddiadau'n dangos bod hyn yn wir.

**Casgliad 5.** Mae’r Pwyllgor o’r farn bod cylch gorchwyl a methodoleg yr Adolygiad Annibynnol yn gadarn ac yn rhoi cwmpas digonol i sicrhau y cynhaliwyd ymchwiliad llawn ac annibynnol i’r materion sy’n ymwneud â Chyn-reolwr Tîm y Cod ac arferion ehangach yr Ombwdsmon.

**Casgliad 6.** Mae’r Pwyllgor o’r farn bod yr Adolygiad Annibynnol wedi’i arwain yn effeithiol gan Dr Melissa McCullough a bod ganddi’r cefndir proffesiynol angenrheidiol, ehangder y profiad a’r arbenigedd i wneud y gwaith hwn ag uniondeb a hygrededd.

# 4. Canlyniadau, argymhellion a gwersi a ddysgwyd o'r Adolygiad Annibynnol

**56.** Cafodd adroddiad yr Adolygiad Annibynnol ei gyhoeddi ar 27 Medi 2024[62], a gellir gweld argymhellion yr adroddiad yn llawn yn Atodiad 1 o'r adroddiad hwn.

## Canlyniadau

**57.** Cafodd canlyniadau'r Adolygiad Annibynnol eu grwpio'n bedair rhan yn unol â'r crynodeb isod.

### Prosesau a dirprwyaethau

**58.** Archwiliodd y rhan hon o'r Adolygiad y dogfennau a amlinellwyd yn yr 'adolygiad dogfennol' (gweler paragraff 40) yn sicrhau eu bod yn briodol, yn deg ac yn ddiduedd ac yn rhydd o ragfarn wleidyddol.

### Dogfennu ymlyniad gwleidyddol yr Aelod a Gyhuddwyd

**59.** Fel yr amlinellwyd yn yr Adolygiad Annibynnol, yng nghyd-destun cwyn Cod Ymddygiad, mae ymlyniad gwleidyddol yr Aelod a Gyhuddwyd weithiau'n cael ei gofnodi ar y Ffurflen Cyn-asesu ac Asesu, ar ddechrau'r broses gwynion.[63]

**60.** Amlinellodd swyddog yr Ombwdsmon sut yr ymdrinnir â chwynion Cod Ymddygiad i ddechrau:

> *"What happens when we first receive a complaint is that the case file is set up on our case management system. As an administrative task, we search to find out what the accused member's contact details are. The practice we did adopt was that our staff would screenshot the details on their council's website. Sometimes that includes political affiliation, sometimes it doesn't. Particularly in relation to town and community council complaints, that information isn't there.*
>
> *To ensure that those details were transferred correctly and that there were no inaccuracies in putting the details on our system, the screenshot was copied over. The inclusion of the political*

[62] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, Medi 2024
[63] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 22

> *affiliation was very much, as Dr McCullough says, a by-product of that administrative task."*[64]

**61.** Fodd bynnag, mae'r Adolygiad yn nodi'r canlynol:

> *"Roedd consenswS [o'r cyfweliadau] nad oes angen gwybodaeth o'r fath ac na ddylid ei chofnodi yn ystod y cam asesu."*[65]

**62.** Dywedodd swyddog yr Ombwdsmon wrth y Pwyllgor fod newidiadau eisoes wedi'u gwneud i'r broses hon fel nad oes sôn am ymlyniad gwleidyddol yn y system rheoli achosion. Yr unig ymlyniad gwleidyddol a fyddai'n ymddangos mewn ffeiliau achos yn y dyfodol fyddai pe bai'n cael ei nodi yn naratif y gŵyn a gyflwynwyd.[66]

### Aelod a Gyhuddwyd heb gael gwybod am y gŵyn tan ar ôl yr asesiad

**63.** Ynglŷn â thegwch, mae'r Adolygiad yn nodi nad yw'r Aelod a Gyhuddwyd yn cael gwybod am y gŵyn tan ar ôl i'r broses asesu gael ei chwblhau a bod y gŵyn naill ai'n cael ei gwrthod neu yr ystyrir ei bod wedi bodloni'r prawf dau gam i ymchwiliad ddechrau.[67]

**64.** Mae'r adroddiad yn datgan y canlynol:

> *"Os penderfynir peidio ag ymchwilio, bydd yr Aelod a Gyhuddwyd yn cael copi wedi ei olygu o'r datganiad o resymau, ond yn gyffredinol nid yw'n cael copi o'r gŵyn. Os penderfynir ymchwilio, bydd yr Aelod a Gyhuddwyd yn cael copi wedi ei olygu o'r gŵyn (ac unrhyw ymateb i lythyr 'amodol')."*[68]

**65.** Mae'r broses hon yn newid i arfer blaenorol, pan fyddai'r Ombwdsmon wedi rhoi gwybod i'r Aelod a Gyhuddwyd am y gŵyn ar ôl iddi ddod i law.[69]

**66.** Mae'r adroddiad yn nodi mai'r prif reswm dros y newid oedd "lleihau pryder diangen i aelodau ynghylch cwynion nad ydynt yn cael eu hymchwilio yn y pen

[64] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraffau 87-88
[65] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 22
[66] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 89
[67] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 23
[68] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 23
[69] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 24

draw". Gweithredwyd y newid hefyd gan fod rhoi gwybod i aelod am y gŵyn pan ddaeth i law'r Ombwdsmon weithiau wedi ysgogi'r aelod i ddechrau casglu ei dystiolaeth ei hun i amddiffyn ei sefyllfa a gwneud cwyn ddialgar.[70]

**67.** Er y nododd staff, yn ystod cyfweliadau â'r tîm adolygu, fod manteision i'r broses flaenorol o ran tegwch a thryloywder, gwnaethant ddweud y gallai'r broses flaenorol achosi pryder diangen, ei bod yn rhoi mwy o draul ar adnoddau'r Ombwdsmon ac y gallai rhoi gwybod i aelod am gŵyn ar gam cynnar arwain at gwynion 'talu'r pwyth'.[71]

**68.** Dywedodd swyddog yr Ombwdsmon wrth y Pwyllgor fod trafodaethau'n mynd rhagddynt ynghylch a ddylid dychwelyd i'r arfer blaenorol ai peidio:

> *"In relation to notification of complaints to accused members, we have already discussed this with the monitoring officers group for all local authorities in Wales that we engage with quite closely and regularly. When we consider whether to revert back to our previous practice, what we intend doing is consulting with the key stakeholders: the monitoring officers, chairs of standards committees, members of local authorities via their monitoring officers and One Voice Wales, for example, and also the Adjudication Panel for Wales, given their experience and expertise on what we do. I think we'll also look at what other regulatory bodies that undertake work of a similar nature to us do. And then, we'll carefully consider the responses that we receive and see what the benefits and disadvantages are of reverting back when we take that decision."*[72]

### Penderfyniadau i beidio ag ymchwilio a chynigion i ymchwilio, estyn ymchwiliadau a chychwyn ymchwiliadau ar ei Liwt ei Hun

**69.** Mae'r adroddiad yn datgan y gofynnwyd am eglurhad ynghylch a oes mecanwaith adolygu/gwirio ar waith mewn perthynas â phenderfyniadau Swyddog Ymchwilio i beidio ag ymchwilio. Er enghraifft drwy samplu ar hap fel rhan o broses archwilio. Canfu'r Adolygiad o gyfweliadau staff y gallai fod gwerth

[70] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 24
[71] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 25
[72] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 90

cael mecanwaith sicrhau ansawdd mewn perthynas â phenderfyniadau i beidio ag ymchwilio gan y Swyddog Ymchwilio ar sail prawf budd y cyhoedd.[73]

**70.** Mae'r adroddiad hefyd yn nodi, yn ymarferol, o gofio lefel ei rôl, y gallai Rheolwr Tîm y Cod Ymddygiad wrthod cynnig Swyddog Ymchwilio i ymchwilio. Os oes anghytundeb neu os yw Rheolwr Tîm y Cod Ymddygiad o'r farn y gallai'r penderfyniad i beidio ag ymchwilio fod yn un dadleuol, gellir ei gyfeirio at y Cyfarwyddwr Ymchwiliadau/Prif Gynghorydd Cyfreithiol. Ar wahân i'r Broses Adolygu Penderfyniadau, mae'r Adolygiad yn nodi nad oes mecanwaith adolygu/gwirio ar waith mewn perthynas â phenderfyniad Rheolwr Tîm y Cod Ymddygiad.[74]

**71.** Mae'r Adolygiad yn datgan bod Rheolwr Tîm y Cod Ymddygiad wedi dirprwyo awdurdod i beidio ag estyn ymchwiliad, ond nad yw hyn wedi'i bennu yn y Cynllun Dirprwyo.[75]

**72.** O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, cadarnhaodd swyddog yr Ombwdsmon ei fod yn cynnal trafodaethau ar sut i weithredu argymhellion tri a phedwar o'r Adolygiad. Ychwanegodd y swyddog y canlynol:

> *"… an additional quality check on those decisions taken by investigating officers not to investigate complaints, and, as recommended in recommendation 3, the code team manager decisions in terms of her oversight of the team. We will randomly sample those decisions and, importantly, those checks will be undertaken by someone who is not working in the code of conduct team, so independent of that work."*[76]

**73.** Pan holwyd y swyddog ynghylch y cynigion i weithredu'r gwiriadau eraill, dywedodd y swyddog efallai na fyddai'r gwiriadau o reidrwydd yn cael eu cynnal gan reolwr ond gan rywun â phrofiad a chyfnod yn y swydd. Aeth y swyddog ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"… that should be around 5 per cent of a dip sampling, random sample approach, across the piece and across the cases closed under these decisions. As I say, it's important, and it's akin to our review process, really, where, when somebody is unhappy and*

[73] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 26
[74] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 27
[75] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 28
[76] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 94

> *they ask for a review of the decision, for example a complainant or a party to a complaint, they can ask for a review now if they are unhappy and that decision is taken outside the team."*[77]

**Cyfle i'r Aelod a Gyhuddwyd roi sylwadau**

**74.** Mae'r adroddiad yn nodi bod yr Aelod a Gyhuddwyd yn cael yr holl dystiolaeth berthnasol cyn cyfweliad ac y gall roi sylwadau ar hyn yn y cyfweliad. Anfonir adroddiad drafft at yr Aelod a Gyhuddwyd os bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at Banel Dyfarnu Cymru/y pwyllgor safonau, a bydd sylwadau a wneir gan yr Aelod a Gyhuddwyd mewn ymateb i'r adroddiad drafft yn cael eu crynhoi mewn adroddiad terfynol, gan roi ystyriaeth briodol iddo a bydd yn cael ei gynnwys yn atodiadau'r adroddiad.[78]

**75.** Mae'r adroddiad yn nodi y dywedwyd wrth yr adolygwyr y byddai'r holl ffeithiau perthnasol, sy'n allweddol i weld a fu achos o dorri'r Cod, yn cael eu harchwilio gyda'r aelod yn y cyfweliad a'u defnyddio i benderfynu pa ffeithiau sy'n destun dadl neu'n cael eu derbyn. Dadansoddir y dystiolaeth a phenderfynir ar ffeithiau dadleuol yn ôl cydbwysedd tebygolrwydd.[79]

**76.** Mae'r adroddiad yn parhau i nodi'r canlynol:

> *"… nid yw'r "canfyddiadau ffeithiol" yn cael eu rhannu gyda'r Aelod a Gyhuddwyd cyn cyhoeddi'r adroddiad drafft fel bo'n berthnasol; pwrpas rhannu'r adroddiad drafft, sy'n cynnwys amlinelliad o'r ffeithiau "a ddadleuwyd" a'r ffeithiau "nad oes dadl yn eu cylch", yw rhoi cyfle i'r aelod wneud sylwadau, gan gynnwys ar y "ffeithiau" a'r "casgliadau", cyn i'r Ombwdsmon wneud penderfyniad terfynol; ac mai rôl yr Ombwdsmon yw cyfeirio achosion lle mae ei "ganfyddiadau ar sail ffeithiau" yn awgrymu tor-amod …"*[80]

[77] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 96
[78] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 31
[79] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 32
[80] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 32

**77.** Dywedodd swyddog yr Ombwdsmon ei fod yn edrych ar sut y gall gryfhau a datblygu'r prosesau sy'n ymwneud â rhoi cyfle i'r Aelod a Gyhuddwyd roi rhagor o sylwadau.[81]

### Ailasesu ac ailystyried cwynion

**78.** Roedd yr Adolygiad hefyd yn gofyn am eglurhad ynghylch rhannu cyfrifoldebau sy'n ymwneud â chwynion Cod Ymddygiad. Mae'n cadarnhau bod Swyddog Adolygu Arweiniol wedi dirprwyo awdurdod gwneud penderfyniadau ar geisiadau adolygu i ailasesu/ailystyried cwynion a bod Swyddog Ymchwilio gwahanol yn ystyried y cwynion pan fydd cais am adolygiad yn cael ei gadarnhau.[82]

**79.** Yn ogystal â'r gweithdrefnau a wiriwyd uchod, mae'r Adolygiad yn nodi amrywiaeth o fesurau diogelu ac arferion da "sy'n sail i briodoldeb, tegwch a didueddrwydd y broses".[83]

### Casgliad

**80.** Daeth yr Adolygiad o'r broses a'r dirprwyaethau i'r casgliad:

> *"… yn gyffredinol, bod prosesau a dirprwyaethau Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gadarn o ran diogelu tegwch a didueddrwydd. Maent yn systematig, wedi eu dogfennu'n dda ac wedi eu hategu gan ganllawiau priodol ac mae'n ofynnol cofnodi ac egluro'r rhesymau dros y penderfyniad fel bo'n berthnasol."*[84]

**81.** Mae'r Adolygiad hefyd yn dod i'r casgliad a ganlyn:

> *"Roedd yr adolygiad dogfennol hefyd yn nodi rhai agweddau ar y canllawiau a allai elwa ar ddiwygiadau esboniadol ac mae'r awgrymiadau yn y cyswllt hwn wedi eu hamlinellu yn yr argymhellion ar ddiwedd yr adroddiad hwn."*[85]

---

[81] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 104
[82] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 33
[83] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 34
[84] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 35
[85] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 36

## Adolygiad achosion Tîm y Cod

**82.** Roedd adolygiad achosion Tîm y Cod yn edrych ar y penderfyniadau a wnaed gan Gyn-reolwr Tîm y Cod a'i Thîm i beidio ag ymchwilio i gwynion Cod Ymddygiad, er mwyn sicrhau bod prawf dau gam yr Ombwdsmon yn cael ei gymhwyso'n briodol a bod penderfyniadau'n rhydd o ragfarn wleidyddol.[86]

**83.** Mae'r Adolygiad yn nodi, ar gyfer yr holl achosion a adolygwyd, nad oedd yn angenrheidiol croesgyfeirio'r achos ag ymlyniad gwleidyddol yr aelod a oedd yn destun y gŵyn. Y rheswm am hyn oedd:

> *"... nad oedd yr adolygiad wedi canfod unrhyw dystiolaeth bod unrhyw benderfyniad achos wedi ei wneud ar sail unrhyw beth ar wahân i'r dystiolaeth a oedd ar gael, y ffeithiau a sefydlwyd a'r casgliadau rhesymegol canlyniadol."*[87]

**84.** Daeth adolygiad achosion Tîm y Cod i'r casgliad bod:

> *"... yr holl benderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth, ffeithiau a rhesymu cadarn, wedi ei seilio'n dda, ac o'r herwydd, nid oedd tystiolaeth o ragfarn wleidyddol. Ni chanfu'r adolygiad achos unrhyw dystiolaeth fod y penderfyniad ar unrhyw un o'r achosion a adolygwyd wedi ei ddylanwadu gan ymlyniad gwleidyddol y sawl a wnaeth y gŵyn a/neu'r aelod y cwynwyd amdano."*[88]

## Adolygu'r achosion ymchwilio a derfynwyd lle'r oedd Cyn-reolwr Tîm y Cod yn "berchennog achos"

**85.** Yn yr adolygiad hwn, edrychwyd ar 11 o achosion yr ymchwiliodd Cyn-reolwr Tîm y Cod iddynt, ac a derfynwyd yn dilyn hynny gan y Cyfarwyddwr Ymchwiliadau a Phrif Gynghorydd Cyfreithiol heb eu cyfeirio at bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru. Y rheswm dros hyn oedd er mwyn sicrhau nad oedd tystiolaeth o ragfarn wleidyddol wrth ymdrin â'r achosion hyn.[89]

---

[86] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 37
[87] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 40
[88] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 57
[89] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 58

**86.** Mae'r adroddiad yn cadarnhau bod yr holl achosion a adolygwyd yn erbyn cynghorwyr o naill ai Awdurdodau Lleol neu Gynghorau Cymuned a bod yr holl benderfyniadau i ddod â'r rhaglen i ben a wnaed gan Gyn-reolwr Tîm y Cod eu cymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Ymchwiliadau a'r Ombwdsmon, yn unol â'r llawlyfr proses.[90]

**87.** Daeth yr adroddiad i'r casgliad a ganlyn:

> *"Canfu'r adolygiad o benderfyniadau i derfynu achosion fod yr holl benderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth, ffeithiau a rhesymu cadarn, wedi ei seilio'n dda, ac o'r herwydd, nid oedd tystiolaeth o ragfarn wleidyddol. Nid oedd tystiolaeth fod y penderfyniadau mewn perthynas â diddymu'r achosion hyn wedi eu dylanwadu gan ymlyniad gwleidyddol y sawl a wnaeth y gŵyn a/neu'r aelod y cwynwyd amdano."*[91]

## Cyfweliadau staff

**88.** Mae'r adroddiad yn nodi bod holl staff Tîm y Cod Ymddygiad y cyfwelwyd â hwy'n syfrdan pan glywson nhw am y digwyddiad am y tro cyntaf, gyda llawer yn mynegi eu bod yn parchu Cyn-reolwr Tîm y Cod am y proffesiynoldeb, y gwaith a'r gefnogaeth a roddwyd ganddi. Roedd rhai o'r rhai y cyfwelwyd â hwy'n ffrindiau gyda'r Cyn-reolwr ond nid oedd yr un ohonynt yn cofio gweld y postiadau. Roedd y cyfweliadau â'r staff yn cadarnhau nad oedd trafodaethau am wleidyddiaeth yn digwydd rhwng cydweithwyr, wyneb yn wyneb nac o bell.[92]

**89.** Cyfwelodd y tîm adolygu hefyd â'r Cyfarwyddwr Ymchwiliadau. Mynegodd ei "[h]anghrediniaeth a'i sioc" ynghylch y digwyddiad, a nododd fod y Cyn-reolwr yn "aelod proffesiynol a gwerthfawr o'r sefydliad".[93]

**90.** Mae'r adroddiad yn nodi y cyfwelodd yr Adolygydd Arweiniol â'r Cyn-reolwr ar ôl cwblhau'r adolygiad achos, ac y gwahoddwyd y Cyn-reolwr i ddarparu unrhyw wybodaeth roedd yn teimlo ei bod yn berthnasol i'r Adolygiad.[94]

---

[90] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraffau 59-60
[91] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 62
[92] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraffau 64-66
[93] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 69
[94] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 70

**91.** Nodir yn yr Adolygiad Annibynnol mai cyfweliad yr Adolygydd Arweiniol â'r Cyn-reolwr oedd y tro cyntaf i'r Cyn-reolwr siarad yn ffurfiol ag unrhyw un am fanylion y digwyddiad. Eglurodd swyddog yr Ombwdsmon fel a ganlyn:

> *"At the point of the resignation, that really ended the formal relationship between the organisation and the former code team manager. So, that was the end of the formal relationship and the formal process."*[95]

**92.** Fodd bynnag, dywedodd swyddog yr Ombwdsmon y bu rhywfaint o gyswllt cyfyngedig wedi hynny, gan ychwanegu'r canlynol:

> *"I was in contact with the former code team manager a number of times by phone and e-mail, firstly to pass on an offer from the reviewer to be interviewed as part of the investigation, secondly, to update on progress and pass on a second offer for the former code team manager to speak to the reviewer—that was at a later stage of the review work—and then, finally, to advise that the work had been completed and that the report was going to be published, and I told her about the publication arrangements. So, I think, overall, we think that the contact was appropriate. It was formal at the early stage of the process, and we tried to keep them informed as the process developed."*[96]

**93.** Dywedodd y Cyn-reolwr wrth Dr McCullough ei bod wedi rhoi hyfforddiant rhagfarn ddiarwybod ar waith ar gyfer yr Ombwdsmon a'i bod wedi cyflwyno'r modiwl sefydlu ar gyfer gwneud penderfyniadau i staff, a oedd yn cynnwys pynciau tuedd cadarnhau, rhagfarn ymwybodol ac anymwybodol, a rhagfarn bersonol, ac y cymeradwywyd pob un o'r rhain gan yr Ombwdsmon.[97]

**94.** Pan ofynnwyd iddi a fyddai'r arfer bod staff mewnol yn cyflwyno hyfforddiant rhagfarn ddiarwybod yn parhau yn y dyfodol, eglurodd swyddog yr Ombwdsmon sut y cyflwynwyd yr hyfforddiant yn y swyddfa:

> *"The general unconscious bias training that we delivered in 2020 was arranged by the former code team manager, but actually delivered by an external provider."*[98]

---

[95] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 51
[96] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 51
[97] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 70
[98] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 100

**95.** Ychwanegodd y swyddog y cafodd hyfforddiant ar werthuso tystiolaeth ei ddatblygu'n fewnol, gan fynd ymlaen i esbonio fel a ganlyn:

> *"That included an element of unconscious bias and the need for staff to be alert to that, together with other biases such as confirmation bias, when we are reviewing evidence on a file. It's a general package of how to assess evidence."*[99]

**96.** Esboniodd y swyddog hefyd sut y darparwyd yr hyfforddiant i staff:

> *"That formed the basis of a module that exists on our hub for staff, and that was delivered by team managers to their teams, and the former code team manager to her team and other staff."*[100]

**97.** Cadarnhaodd y swyddog fod yr hyfforddiant hwn yn parhau i gael ei ddefnyddio gan ei fod yn ganllaw cyflawn, cynhwysfawr i atgoffa staff ar sut i ymdrin â mathau gwahanol o dystiolaeth a'i fod yn cael ei adolygu hefyd.[101]

**98.** Rhannodd yr Ombwdsmon hefyd weithdrefnau eraill sydd ar waith i atal gwrthdaro neu ragfarn ddiarwybod sy'n effeithio ar waith y swyddfa:

> *"… the declaration of interest policy is quite clear about people stepping back. What we also do as well, if it presents a conflict for the organisation or perhaps a senior member of staff, is we would ask another ombudsman to take on that investigation, and we have a reciprocal arrangement where we do that for them if they're in a similar situation."*[102]

**99.** Aeth yr Ombwdsmon ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"… we're very, very conscious. We hold very dear our independence and that impartiality and fairness, and that's why this whole incident has been so difficult for the organisation. But everything we do is about maintaining that independence and impartiality."*[103]

---

[99] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 100
[100] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 100
[101] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 100
[102] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 162
[103] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 162

**100.** Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y cyfweliadau, daeth yr adroddiad i'r casgliad a ganlyn:

> *"Canfu'r adolygiad nad oedd tystiolaeth bod cyn-reolwr tîm y cod wedi mynegi ei barn bersonol am faterion gwleidyddol 'sy'n debyg i'w negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol' yn y swyddfa a/neu wedi dylanwadu'n amhriodol ar aelodau eraill o staff, wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000."*[104]

## Argymhellion a oedd yn codi o'r Adolygiad Annibynnol

**101.** Gwnaeth yr Adolygiad Annibynnol saith argymhelliad mewn perthynas â phrosesau presennol a fyddai'n "ategu'r mesurau diogelu presennol ar gyfer sicrhau tegwch a diduedddrwydd y prosesau".[105] Ceir crynodeb isod o'r argymhellion a gellir eu gweld yn llawn yn Atodiad 1:

1. Er mwyn lliniaru'r risg o ragfarn ddiarwybod ar ran y Swyddog Ymchwilio ac i fod yn sail i degwch y broses asesu cwynion, "argymhellir bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau nad yw ymlyniad gwleidyddol yr Aelod a Gyhuddwyd yn cael ei gofnodi ar y [Ffurflen Cyn-asesu ac Asesu]".

2. Er mwyn bod yn deg ac yn dryloyw, "argymhellir bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried dychwelyd at yr arfer blaenorol o roi gwybod i'r Aelod a Gyhuddwyd am y gŵyn ar ôl iddi ddod i law". Mae'r adolygiad yn nodi y byddai hyn hefyd yn amddiffyn yr Ombwdsmon rhag beirniadaeth pe bai'r Aelod a Gyhuddwyd yn clywed am y gŵyn drwy drydydd parti neu'r cyfryngau.

3. "Er gwaethaf y darpariaethau perthnasol yn y llawlyfr proses ac yn y Broses Adolygu Penderfyniadau, argymhellir bod mecanwaith adolygu/gwirio ychwanegol yn cael ei sefydlu er mwyn sicrhau ansawdd y penderfyniadau Swyddog Ymchwilio yn y cyswllt hwn, yn enwedig o ran y prawf budd y cyhoedd, ac fel mesur diogelu pellach yn erbyn y potensial o ragfarn ddiarwybod ar ran y Swyddog Ymchwilio". Datgenir yn yr adolygiad y gellid cyflawni hyn drwy samplo penderfyniadau Swyddog Ymchwilio ar hap.

[104] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 71
[105] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 72

4. Ynglŷn ag awdurdod dirprwyedig Rheolwr Tîm y Cod i wrthod cynnig Swyddog Ymchwilio i ymchwilio ac i estyn yr ymchwiliad neu gychwyn ymchwiliad newydd yn erbyn aelod arall, dylid cofio yr “argymhellir bod mecanwaith adolygu/gwirio ychwanegol yn cael ei gyflwyno mewn perthynas â’r penderfyniadau dirprwyedig hyn, er mwyn lliniaru’r risg o ragfarn ddiarwybod ar ran Rheolwr Tîm y Cod wrth benderfynu peidio â chytuno ar gynigion Swyddog Ymchwilio”.

5. Datgenir yn yr adolygiad ei fod yn cydnabod, fel rhan o broses gyfun Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Phanel Dyfarnu Cymru/y pwyllgor safonau, fod gan yr Aelod a Gyhuddwyd gyfleoedd i roi sylwadau ar ffeithiau’r achos. Datgenir yn yr adolygiad ei bod yn “bosib y bydd yr Ombwdsmon yn dymuno ystyried a oes pwyntiau ychwanegol yn y broses lle byddai mantais o ran rhoi cyfle i’r Aelod a Gyhuddwyd roi sylwadau pellach ar ffeithiau perthnasol, yn enwedig cyn dod i gasgliadau/canfyddiadau drafft ynghylch a yw’r dystiolaeth yn awgrymu torri’r cod”.

6. Mae’r adolygiad yn argymell bod “Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried datblygu canllawiau mewnol manylach ar asesu prawf budd y cyhoedd. Yn ogystal, dylid adolygu ffactorau ac ystyriaethau budd y cyhoedd yn rheolaidd”.

7. Mae’r adolygiad yn argymell gwneud newidiadau esboniadol i’r llawlyfr proses a’r Cynllun Dirprwyo. Mae’r adroddiad yn rhestru’r newidiadau a awgrymir.

## Gwersi a ddysgwyd ac ymateb yr Ombwdsmon i’r Adolygiad Annibynnol

**102.** Daeth yr Adolygiad Annibynnol i’r casgliad y dylai’r cyhoedd ac aelodau etholedig gael sicrwydd bod prosesau Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon yn

> *“… gadarn, yn cael eu gymhwyso’n gyson, yn deg ac yn addas i’r diben. Gan na chanfu’r adolygiad unrhyw dystiolaeth o ragfarn wleidyddol wrth wneud penderfyniadau nac unrhyw bryder o ran prosesau perthnasol, mae’r prif wersi a ddysgwyd yn ymwneud â mesurau a allai leihau’r risg o’r math hwn o beth yn digwydd eto.”*[106]

[106] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 73

**103.** Mae'r Adolygiad yn argymell bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried y pwyntiau a ganlyn fel rhan o'r gwersi a ddysgwyd[107]:

- A allai Cod Ymddygiad, polisïau ac arferion Staff yr Ombwdsmon sy'n ymwneud â defnyddio cyfryngau cymdeithasol fod yn fwy cynhwysfawr mewn perthynas â nodi'r amgylchiadau lle mae gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol gan weithiwr yn gyfystyr â chamymddwyn, yn eu gwaith ac yn eu bywydau preifat, gan ystyried y gyfraith achosion gyfredol mewn perthynas â rhyddid mynegiant (Erthygl 10) ac achosion cynsail perthnasol eraill.

- A oes angen cymryd camau i sicrhau bod gwybodaeth glir yn cael ei darparu fel rhan o unrhyw broses recriwtio gan yr Ombwdsmon i sicrhau bod ymgeiswyr yn cael gwybod am unrhyw gwtogi angenrheidiol ar hawl gweithwyr yr Ombwdsmon i ryddid mynegiant, gan gynnwys gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol.

- A ddylai asesiadau o ragfarn/rhagfarn ddiarwybod fod yn rhan orfodol o'r broses recriwtio.

- A ddylai hyfforddiant gloywi gorfodol ar ragfarn ddiarwybod ac ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol gael ei roi ar waith yn flynyddol.

- Os bydd amgylchiadau eithriadol tebyg yn codi, a oes angen i'r Ombwdsmon gael polisïau neu brosesau eraill i gefnogi ei staff.

- P'un ai, oherwydd yr heriau penodol sy'n codi o ymchwilio i ymddygiad aelodau etholedig, a oes hyfforddiant priodol ar gael ar gyfer staff perthnasol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â chydnerthedd wrth reoli'r pwysau a'r gwendidau sy'n dod gyda'r rôl hon.

**104.** Yn ei ymateb i'r adroddiad, dywedodd yr Ombwdsmon y canlynol:

> *"Mae OGCC yn derbyn yr holl argymhellion a bydd y gwersi a ddysgwyd yn cael eu defnyddio i gryfhau polisïau ac ymarferion, recriwtio a hyfforddi mewnol ymhellach."*[108]

[107] Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad, paragraff 73
[108] Datganiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 27 Medi 2024

**105.** Dywedodd yr Ombwdsmon wrth y Pwyllgor fod ei swyddfa wrth'n drafftio ymateb rheolwr manylach, sy'n dweud yn union yr hyn y bydd yn ei wneud yn erbyn pob un o'r argymhellion a'r gwersi a ddysgwyd.[109] Parhaodd fel a ganlyn:

> *"Our commitment is that we want to complete all of the actions necessary to implement the recommendations and the lessons learned by the end of the financial year, and we feel that we can achieve that. What we will then do is that, once we've got that detailed management response and published it, our audit and risk assurance committee will oversee the delivery of that, monitor that and seek assurance that we're doing that properly and in line with what we committed to do, and that it is having the right impact—not just that we're ticking the box but that it's having the right impact on the work that we do."*[110]

**106.** Pan ofynnwyd iddi sut y byddai'r Pwyllgor yn cael gwybod am ddiweddariadau yn erbyn y camau y mae'r Ombwdsmon yn eu cymryd, dywedodd yr Ombwdsmon y byddai'n fodlon rhoi diweddariadau'n uniongyrchol i'r Pwyllgor neu i ddiweddariadau o'r fath fod yn rhan o'i hadroddiadau blynyddol.[111]

**107.** Wedi hynny, mae'r Ombwdsmon wedi ysgrifennu at y Pwyllgor i rannu'r cynllun gweithredu sy'n amlinellu "sut y byddwn yn bwrw ymlaen â phob argymhelliad a phob gwers a ddysgwyd, ynghyd â'r amserlenni cysylltiedig".[112]

**108.** Aeth yr Ombwdsmon ymlaen i egluro, er mai ffocws y gwaith nesaf fyddai cyflawni'r argymhellion a'r gwersi a ddysgwyd, y gellir ystyried gwneud gwaith dilynol. Aeth ymlaen i nodi'r canlynol:

> *"… something, I would suggest, perhaps, that's light touch, given that this was quite a resource-intensive, particularly financially, piece of work. But it was absolutely valuable to have that external focus, and I think that's something for us to reflect on as well."*[113]

[109] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 72
[110] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 73
[111] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 77
[112] Llythyr oddi wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru at y Pwyllgor Cyllid, 29 Hydref 2024
[113] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 81

**109.** Yn ystod gwaith craffu blynyddol y Pwyllgor ar Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon yr Ombwdsmon ar gyfer 2023-24 ac Amcangyfrif 2025-26, cadarnhaodd yr Ombwdsmon mai ychydig dros £66,000 oedd cost yr Adolygiad Annibynnol.[114]

**110.** Gofynnodd y Pwyllgor a ddylai dangosyddion perfformiad allweddol gael eu haddasu i fonitro ansawdd eu penderfyniadau a diffyg rhagfarn wleidyddol. Ymatebodd yr Ombwdsmon:

> *"That's a good point and something we can reflect on and talk through with our advisory panel. Just thinking about some of the recommendations, for instance, there's a recommendation there that we introduce an additional quality check by doing a dip sample of delegated decisions. We could well build that in to our performance framework as well so that there's an assurance that that's happened, and also what was the result of that dip sample and quality check—were we still satisfied about the quality of our decision making and the absence of political bias. So, I think that's a good point, Chair, and where we can it would make sense to do that."*[115]

**111.** Trafododd swyddog yr Ombwdsmon sut y gellid rhoi newidiadau ar waith i ddiogelu rhag sefyllfa debyg yn codi eto ar gyfryngau cymdeithasol, yn enwedig o ran y cam recriwtio a phenodi:

> *"The principle is that we want to be absolutely clear with people before they are appointed what they are signing up to. In other words, that they acknowledge there are restrictions on political activity and they are restricted in how they use social media and what they post. So, at that point we will be doing additional research, prior to appointment as well, so that we have a better understanding. And if there are problematic posts in the past, then we're at least aware of those, and we've got the opportunity to discuss those with the candidate. So, that's prior to appointment. Once people are appointed, our emphasis is on training and awareness and understanding of the policy, and making sure that that policy and the guidance is clear."*[116]

[114] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 16 Hydref 2024, paragraff 156
[115] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 79
[116] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 138

**112.** Eglurodd yr Ombwdsmon fod gwahaniaeth rhwng mynegi barn ar bolisi, sy'n effeithio ar bawb, a gwneud sylwadau penodol iawn ar blaid wleidyddol, sef y sefyllfa roedd ynddi.[117]

**113.** Aeth yr Ombwdsmon ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"I think this is a challenging area. People do have a right to a private life, and we don't want to interfere with that more than the job requirements actually require. So, we don't have a proposal to do close monitoring of staff social media accounts, but we do want to emphasise and make sure that staff understand the restrictions. It is always difficult, isn't it, getting that line right? But, ultimately, our staff are doing a really important job."*[118]

**114.** Cadarnhaodd swyddog yr Ombwdsmon, fel gyda phob newid i bolisïau Adnoddau Dynol, y byddai unrhyw newid i bolisi cyfryngau cymdeithasol yr Ombwdsmon yn destun trafodaeth â'i banel cynghori ac ymgynghoriad â staff ac undebau llafur.[119] Cadarnhaodd y swyddog hefyd fod trafodaethau wedi'u cynnal â chyrff tebyg a nododd fod polisïau ar gyfryngau cymdeithasol yn amrywio o ran pa mor benodol y maent. Daeth y swyddog i'r casgliad a ganlyn:

> *"What we've done is try to build on that best and good practice from elsewhere, but make sure that it does address the recommendations that Dr McCullough has made, so it is sufficiently clear to staff. I think that's one of the really important things. We want staff to be accountable for their actions that could impact on the office, but it's only fair, if we do that, for the policy to be very clear about what they can and cannot do."*[120]

**115.** Nododd yr Ombwdsmon hefyd fod rhai newidiadau i arfer wedi'u gweithredu na chawsant eu nodi yn yr Adolygiad Annibynnol. Esboniodd fod staff yn teimlo'n agored iawn a bod llawer o bwysau arnynt, a'u bod yn cael llawer o sylwadau annheg gan unigolion ac, o ganlyniad, mae wedi cynnal cyfarfodydd rheolaidd â'r tîm i drafod sut y gall y swyddfa eu helpu.[121] Un newid a ddeilliodd o'r trafodaethau hyn oedd newid yn llofnodwr llythyrau gan dîm y cod, nad ydynt bellach yn cael eu llofnodi gan yr unigolyn sy'n ymchwilio i'r gŵyn i sicrhau ei bod

[117] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 132
[118] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 123
[119] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 113
[120] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 118
[121] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraffau 148-149

yn glir mai penderfyniadau'r swyddfa, yr ombwdsmon a'r staff sy'n cefnogi'r gŵyn yw'r rhain. yn hytrach na phenderfyniadau unigol a wneir gan ymchwilwyr unigol.[122]

## Barn y Pwyllgor

**116.** Mae'r Pwyllgor yn nodi adroddiad yr Adolygiad Annibynnol ac yn credu ei fod yn rhoi eglurder nad oedd tystiolaeth o ragfarn wleidyddol. Mae'n dangos bod penderfyniadau a wnaed gan yr Ombwdsmon a'i staff yn seiliedig ar ffeithiau a thystiolaeth yn unig ac nad oedd ymlyniad gwleidyddol wedi dylanwadu arnynt. Rydym yn croesawu argymhellion a chanfyddiadau'r adroddiad ac rydym yn credu ei fod yn darparu ffyrdd adeiladol o wella'r prosesau presennol yn swyddfa'r Ombwdsmon a'u gwella ymhellach.

**117.** Rydym yn cydnabod y camau rhagweithiol a gymerodd yr Ombwdsmon yn ei hymateb cychwynnol i ymateb yn brydlon ac yn gadarnhaol i argymhellion yr adroddiad, ac rydym yn credu bod y camau hyn wedi bod yn gadarn a'u bod yn gyson â barn a chasgliadau'r Adolygiad Annibynnol.

**118.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad yr Ombwdsmon i dderbyn yr holl argymhellion a'r gwersi a ddysgwyd o'r Adolygiad Annibynnol. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod rhai o'r argymhellion naill ai eisoes wedi'u gweithredu'n llawn neu fod trafodaethau eisoes wedi dechrau o ran sut y gellid gweithredu'r argymhellion.

**119.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd rôl Tîm Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon wrth ymchwilio i gwynion yn erbyn cynghorwyr. Rydym hefyd yn cydnabod bod y digwyddiad o ganlyniad i weithredoedd unigolyn ac nad yw'n adlewyrchiad o'r tîm ehangach. Rydym yn nodi nad yw canfyddiadau'r adroddiad yn cyfeirio at faterion diwylliannol yn y sefydliad y mae angen mynd i'r afael â hwy. Serch hynny, rydym yn cytuno bod meysydd lle y byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael gwybod am gynnydd.

**120.** Yn benodol, mae'r Pwyllgor yn galw ar yr Ombwdsmon i roi diweddariadau i'r Pwyllgor ar sut y mae'n gweithredu newidiadau o ganlyniad i'r Adolygiad, boed hynny fel rhan o'r dangosyddion perfformiad allweddol sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad blynyddol neu fecanweithiau eraill.

**121.** Rydym yn croesawu ymrwymiad yr Ombwdsmon i adolygu'r dangosyddion perfformiad allweddol i ganfod a fyddai'n bosibl cyflwyno dangosydd sy'n mesur effaith argymhellion yr Adolygiad. Rydym yn awgrymu bod yr Ombwdsmon yn ystyried cyflwyno dangosydd perfformiad allweddol a fyddai'n gofyn bod sampl 5

[122] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 146

y cant o benderfyniadau a wneir gan Swyddogion Ymchwilio a Rheolwyr Tîm y Cod yn cael mecanwaith adolygu neu wirio ychwanegol ar gyfer safbwynt sicrhau ansawdd. Fodd bynnag, rydym yn derbyn mai mater i'r Ombwdsmon yw pennu'r ffiniau ar gyfer dangosyddion perfformiad allweddol.

**122.** Rydym yn nodi y gallai gwaith dilynol a wneir gan yr Ombwdsmon roi sicrwydd ychwanegol ar y materion a godwyd yn yr Adolygiad ond y byddai unrhyw waith dilynol gyda'r tîm adolygu yn arwain at oblygiadau ariannol ac adnoddau. Fel y cyfryw, rydym yn cytuno, cyn gwneud gwaith dilynol, y dylai'r Ombwdsmon ystyried a yw budd gwaith dilynol yn drech na'r goblygiadau ariannol ac adnoddau. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl cael gwybod am ddatblygiadau a chostau cysylltiedig yn y maes hwn.

**123.** Rydym yn nodi barn yr Ombwdsmon bod monitro defnydd staff o gyfryngau cymdeithasol yn faes heriol ac yn cydnabod bod gan staff yn swyddfa'r Ombwdsmon hawl i fywyd preifat. Rydym yn croesawu dull yr Ombwdsmon o edrych tuag allan ar sut y mae cyrff tebyg eraill wedi mynd i'r afael â'r mater cymhleth hwn. Fodd bynnag, mae gennym ddiddordeb yn y ffordd y gellid monitro cyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol i sicrhau bod staff yn dilyn canllawiau a ddarperir gan yr Ombwdsmon a sut y caiff hyn ei gydbwyso â hawliau staff i ryddid i lefaru. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ystyriaeth y mae'r Ombwdsmon wedi'i rhoi i bennu cydbwysedd priodol wrth fonitro cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ei staff ac yn gofyn am ragor o ddiweddariadau yn y maes hwn.

**Casgliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu casgliadau ac argymhellion yr Adolygiad Annibynnol ac yn nodi bod y canfu'r Adolygiad fod yr holl benderfyniadau yn swyddfa'r Ombwdsmon yn seiliedig ar dystiolaeth a ffeithiau yn unig, nad oedd tystiolaeth o ragfarn wleidyddol, a bod prosesau'r Cod Ymddygiad yn gadarn, yn cael eu gymhwyso'n gyson, yn deg ac yn ateb y gofyn.

**Casgliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn nodi casgliadau'r Adolygiad Annibynnol:

- gweithredodd Cyn-reolwr Tîm y Cod yn ddiduedd ac yn deg drwy gydol y cyfnod a gwmpesir gan yr Adolygiad;
- nid oedd tystiolaeth bod y Cyn-reolwr Tîm y Cod wedi mynegi barn bersonol am faterion gwleidyddol wrth gyflawni ei dyletswyddau statudol;
- mae'r swyddfa yn gallu cynnal ymchwiliadau yn y dyfodol mewn ffordd ddiduedd a theg.

**Argymhelliad 1.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon yn darparu ymateb ffurfiol i’n hadroddiad a’n hargymhellion, yn ogystal â diweddariadau rheolaidd, gan gynnwys diweddariadau yn ei Adroddiadau Blynyddol, i’r Pwyllgor ar gynnydd wedi hynny o ran gweithredu’r argymhellion a’r gwersi a ddysgwyd yn yr Adolygiad Annibynnol.

**Casgliad 9.** Rydym yn cydnabod y camau a gymerodd yr Ombwdsmon i ymateb yn gadarnhaol i argymhellion yr adroddiad, a bod gweithgarwch ar droed i weithredu argymhellion a gwersi a ddysgwyd.

**Argymhelliad 2.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon yn ystyried cyflwyno dangosydd perfformiad allweddol newydd yn seiliedig ar sampl o benderfyniadau a wnaed gan Swyddogion Ymchwilio a Rheolwyr Timau’r Cod sy’n cael gwiriadau ychwanegol.

**Argymhelliad 3.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon yn darparu diweddariad ynghylch a fyddai unrhyw waith dilynol yn cael ei wneud yn dilyn yr Adolygiad Annibynnol, gan gynnwys goblygiadau ariannol ac adnoddau cysylltiedig.

**Argymhelliad 4.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon yn darparu diweddariadau i’r Pwyllgor ar sut y mae’n monitro cydymffurfiaeth staff mewn cysylltiad â’i bolisi cyfryngau cymdeithasol.

# Atodiad 1: Argymhellion o'r Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad

Oni nodir yn wahanol, mae cyfeiriadau at rif paragraff yn cyfeirio at yr adroddiad a gyhoeddwyd yn dilyn yr Adolygiad Annibynnol.

1. Dogfennu ymlyniad gwleidyddol yr Aelod a Gyhuddwyd: er mwyn lliniaru'r risg o ragfarn ddiarwybod ar ran y Swyddog Ymchwilio ac i fod yn sail i degwch y broses asesu cwynion, argymhellir bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau nad yw ymlyniad gwleidyddol yr Aelod a Gyhuddwyd yn cael ei gofnodi ar y Ffurflen Cyn-asesu ac Asesu. Bydd angen diwygio'r llawlyfr proses yn briodol, gyda chyfarwyddiadau wedi eu diweddaru ar gyfer y Tîm Derbyn.

2. Nid yw'r Aelod a Gyhuddwyd yn cael gwybod am y gŵyn tan ar ôl yr asesiad: er mwyn bod yn deg ac yn dryloyw, argymhellir bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried dychwelyd at yr arfer blaenorol o roi gwybod i'r Aelod a Gyhuddwyd am y gŵyn ar ôl iddi ddod i law. Byddai hyn hefyd yn amddiffyn yr Ombwdsmon rhag beirniadaeth yn y cyswllt hwnnw, a allai godi o amgylchiadau lle nad yw'r Aelod a Gyhuddwyd yn ymwybodol o'r gŵyn ac yn cael clywed amdani drwy drydydd parti neu'r cyfryngau. Os bydd yr Ombwdsmon yn penderfynu dychwelyd i'r arfer blaenorol, bydd angen diwygio'r llawlyfr proses yn unol â hynny.

3. Penderfyniad Swyddog Ymchwilio i beidio ag ymchwilio: er gwaethaf y darpariaethau perthnasol yn y llawlyfr proses ac yn y Broses Adolygu Penderfyniadau, argymhellir bod mecanwaith adolygu/gwirio ychwanegol yn cael ei sefydlu er mwyn sicrhau ansawdd y penderfyniadau Swyddog Ymchwilio yn y cyswllt hwn, yn enwedig o ran y prawf budd y cyhoedd, ac fel mesur diogelu pellach yn erbyn y potensial o ragfarn ddiarwybod ar ran y Swyddog Ymchwilio. Ategir yr argymhelliad hwn gan ganfyddiadau o'r cyfweliadau â staff. O ystyried nifer y cwynion, fodd bynnag, mae angen i'r mesur arfaethedig fod yn gymesur ac awgrymir y gellid cyflawni hyn drwy samplo penderfyniadau Swyddog Ymchwilio ar hap o bryd i'w gilydd.

4. Awdurdod dirprwyedig Rheolwr Tîm y Cod i wrthod cynigion Swyddog Ymchwilio i ymchwilio a chynigion Swyddog Ymchwilio i ymestyn yr ymchwiliad neu gychwyn ymchwiliad newydd yn erbyn aelod arall: er gwaethaf y ddarpariaeth berthnasol yn y Broses Adolygu Penderfyniadau, argymhellir bod mecanwaith adolygu/gwirio ychwanegol yn cael ei gyflwyno mewn perthynas â'r penderfyniadau dirprwyedig hyn, er mwyn lliniaru'r risg o ragfarn ddiarwybod ar ran Rheolwr Tîm y Cod wrth benderfynu peidio â chytuno ar gynigion Swyddog Ymchwilio. Awgrymir y gellid cyflawni'r mesur hwn hefyd drwy samplu penderfyniadau Rheolwr Tîm y Cod ar hap. Yn ogystal, dylid diweddaru'r Cynllun Dirprwyo i gynnwys y pwerau hyn gan Reolwr Tîm y Cod i wneud penderfyniadau.

5. Cyfle i'r Aelod a Gyhuddwyd roi sylwadau: mae'r adolygiad yn cydnabod, fel rhan o broses gyfun Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Phanel Dyfarnu Cymru/y pwyllgor safonau, bod gan yr Aelod a Gyhuddwyd nifer o gyfleoedd i roi sylwadau ar ffeithiau'r achos. Canfu'r adolygiad felly fod y broses yn amlwg yn deg. Wedi dweud hynny, mae'n bosib y bydd yr Ombwdsmon yn dymuno ystyried a oes pwyntiau ychwanegol yn y broses lle byddai mantais o ran rhoi cyfle i'r Aelod a Gyhuddwyd roi sylwadau pellach ar ffeithiau perthnasol, yn enwedig cyn dod i gasgliadau/canfyddiadau drafft ynghylch a yw'r dystiolaeth yn awgrymu torri'r cod.

6. Ffactorau ac ystyriaethau er budd y cyhoedd: mae'r adolygiad yn cydnabod nad yw'r ffactorau a'r ystyriaethau a restrir yn hollgynhwysfawr, ond mae'n argymell bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried datblygu canllawiau mewnol manylach ar asesu prawf budd y cyhoedd. Yn ogystal, dylid adolygu ffactorau ac ystyriaethau budd y cyhoedd yn rheolaidd.

7. Newidiadau esboniadol: gyda'r bwriad o egluro'r canllawiau, mae'r adolygiad hefyd yn argymell:

i. Bod y llawlyfr proses yn cael ei ddiwygio i fynd i'r afael â'r anghysondeb ymddangosiadol mewn terminoleg lle mae "tystiolaeth uniongyrchol bod y Cod wedi ei dorri" yn ofyniad i gŵyn basio'r cam asesu (paragraffau 5.4 a 5.5) tra gellir cwblhau ymchwiliad ar sail y canfyddiad "nad oes tystiolaeth o dorri'r Cod" (paragraff 13.1(a));

ii. Mae'r llawlyfr proses yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r arfer presennol, pan fydd y Swyddog Adolygu Lleol yn cadarnhau cais am adolygiad o

gŵyn, y bydd yr ailasesu/ailystyried yn cael ei gynnal gan Swyddog Ymchwilio gwahanol i'r Swyddog Ymchwilio a gynhaliodd yr asesiad/ymchwiliad gwreiddiol; a

iii. Bod y Cynllun Dirprwyo yn cael ei ddiweddaru yng ngoleuni ail-deitlo swydd y Swyddog Adolygu Lleol i egluro bod y Swyddog Cofnodion Lleol wedi dirprwyo awdurdod mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch a ddylid cadarnhau cais am adolygiad y dylid ailasesu/ailystyried y gŵyn.